CYPE(6)-08-21 – Papur i'w nodi 2

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
—
Children, Young People and Education Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Cadeiryddion yr holl Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol

01 Rhagfyr 2021

**Gweithio gyda'r trydydd sector i ddarparu gwasanaethau cymorth iechyd meddwl i blant a phobl ifanc**

Yn ddiweddar, clywodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg dystiolaeth gan Gomisiynydd Plant Cymru fel rhan o'n gwaith craffu ar ei hadroddiad blynyddol a'i chyfrifon. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth honno, gwnaethom ofyn i'r Comisiynydd i ba raddau yr oedd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gweithio ochr yn ochr â'r trydydd sector i ddarparu gwasanaethau cymorth iechyd meddwl i blant a phobl ifanc.

Dywedodd y Comisiynydd wrthym fod rhai enghreifftiau da iawn o ble, wrth sefydlu dull 'dim drws anghywir', mae rhai o'n rhanbarthau wedi gweithio'n effeithiol iawn gyda'r trydydd sector fel partneriaid.[1] Fe wnaeth ein hannog, fodd bynnag, i barhau i roi blaenoriaeth i graffu ar sut mae byrddau partneriaeth rhanbarthol a chyrff cyhoeddus eraill yn gweithio ochr yn ochr â'r trydydd sector i ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc.

Byddwn yn ddiolchgar, felly, pe gallech roi gwybodaeth i'r Pwyllgor am y canlynol mewn perthynas â darparu cymorth iechyd meddwl i blant a phobl ifanc:

- sut rydych chi'n gweithio ochr yn ochr â'r trydydd sector i gynllunio a darparu gwasanaethau cymorth;

[1] Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion: 18 Tachwedd 2021, paragraff 91

- enghreifftiau o fodelau gweithredol o ofal integredig a sut maen nhw'n rhoi sylw i'ch blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer plant a phobl ifanc (h.y. gwybodaeth am brosiectau / cynlluniau rydych chi'n ymgymryd â nhw ar hyn o bryd ochr yn ochr â'r trydydd sector: beth mae'r prosiectau / y cynlluniau yn ei wneud, pa sefydliadau'r trydydd sector sy'n cymryd rhan, pwy a all gyrchu'r gwasanaethau y mae'r prosiectau / cynlluniau yn eu darparu a ble, ac ati);

- ble mae gweithio mewn partneriaeth wedi gweithio'n dda, a ble rydych chi wedi dysgu gwersi o ran sut i'w wella yn y dyfodol; ac

- unrhyw gynlluniau sydd gennych yn y dyfodol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â'r trydydd sector, yr hyn yr ydych yn gobeithio ei gyflawni gyda'r cynlluniau hynny, a sut y cânt eu monitro a'u gwerthuso.

A oes modd i chi ddarparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani uchod erbyn dydd Gwener 14 Ionawr fan bellaf? Bydd y Pwyllgor yn gwneud penderfyniadau ynghylch pa feysydd gwaith i'w blaenoriaethu yn ystod cyfarfod cynllunio strategol a gaiff ei gynnal ar 27 Ionawr 2022. Bydd y wybodaeth a roddwch yn ddefnyddiol wrth inni wneud y penderfyniadau hynny.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech gael eglurhad ynghylch y pwynt uchod, mae croeso i chi gysylltu â chlercod y Pwyllgor (SeneddPlant@Senedd.Cymru).

Yn gywir,

Jayne Bryant

Jayne Bryant AS

Cadeirydd, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.